

Pennawd: Tipio anghyfreithlon yn niweidio Merthyr Tudful wrth i ddodrefn a sbwriel gael eu gadael mewn parciau



**Darllenwch y
pennawd papur
newydd**

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

Sut bydd y gwastraff sy'n cael ei dipio yn
effeithio arnoch chi?

**Meddylwch pwy fyddai orau i ateb y
cwestiynau yma:**

Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

Beth ddylai gael ei wneud ynglŷn â'r mater?

Ceisiwch feddwl am o leiaf ddau gwestiwn arall i'w gofyn

Jack

Byw yn lleol

- Mynd am dro gyda'r wyrion a'r ci yn yr ardal
- Sbwriel yn edrych yn wael ac yn ei ddigalonni
- Poeni y gallai'r sbwriel gynnwys gwastraff peryglus, fel cemegion neu wydr
- Teimlo nad yw pobl yn poeni am yr ardal cymaint ag yr oeddent

Jason

Yn gweithio i'r cyngor

- Yn gorfod cael gwared â'r holl wastraff
- Costau glanhau yn ddrud i'r cyngor
- Dylai pobl sicrhau eu bod yn mynd â'u gwastraff i'r domen eu hunain neu dalu cwmni gwastraff trwyddedig i fynd ag ef

Sally

Perchennog caffi cyfagos

- Llai o bobl yn ymweld â'r ardal oherwydd y sbwriel - gan olygu llai o gwsmeriaid
- Ddim yn gwneud cymaint o elw ag o'r blaen, ac efallai bydd rhaid iddi gau'r caffi

Norma

Yn gweithio i Taclo Tipio Cymru

- Mae tipio anghyfreithlon yn broblem fawr yn yr ardal
- Mae pobl yn gadael dodrefn a sbwriel - mae'n rhatach na mynd i'r domen
- Dim camerâu CCTV - mae'n anodd dal y rhai sy'n gwneud
- Mae'n anghyfreithlon, a gall olygu dirwy neu garchar

Pennawd: Gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon wedi ei godi o afon i leihau perygl llifogydd



**Darllenwch y
pennawd papur
newydd**

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

Sut bydd y gwastraff sy'n cael ei dipio yn effeithio arnoch chi?

**Meddyliwch pwy fyddai orau i ateb y
cwestiynau yma:**

Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

Beth ddylai gael ei wneud ynglŷn â'r mater?

Ceisiwch feddwl am o leiaf ddau gwestiwn arall i'w gofyn

Alice

Byw yn lleol

- Yn byw yn agos i'r afon
- Wedi gweld llifogydd ar y newyddion ac yn pryderu y gall ddigwydd i'w chartref hi
- Llifogydd a thipio anghyfreithlon yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd pobl yn mudo i'r ardal, a gallai hyd yn oed arwain at ostyngiad mewn prisiau tai

Edward

Gwirfoddolwr

- Yn byw yn lleol ac eisiau gwarchod yr ardal
- Wedi gweithio gyda Taclo Tipio Cymru i gasglu 1 tonnelli o wastraff
- Dymuno i bobl ddelio gyda'u gwastraff yn gywir trwy ei gludo i'r domen eu hunain

Sian

Gwyddonydd amgylcheddol

- Gall gwastraff fod yn niweidiol i'r amgylchedd
- Nifer fawr o rywogaethau yn dibynnu ar afon lân am fwyd a lloches
- Gall cemegion gyrraedd y gadwyn fwyd, a pheri i fywyd gwyllt farw

Dafydd

Yn gweithio i Taclo Tipio Cymru

- Mae tipio yn yr afon yn broblem fawr yn yr ardal
- Gall y gwastraff arafu'r afonydd gan gynyddu'r perygl o lifogydd
- Wedi trefnu i wirfoddolwyr helpu i gasglu'r gwastraff ond roedd dal wedi costio £1,000 i gael gwared â'r cwbl

Pennawd: Tair buwch wedi'u lladd yng Nghonwy ar ôl bwyta gwastraff wedi'i dipio yn anghyfreithlon



**Darllenwch y
pennawd papur
newydd**

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:
Sut bydd y gwastraff sy'n cael ei dipio yn
effeithio arnoch chi?

**Meddylwch pwy fyddai orau i ateb y
cwestiynau yma:**
Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
Beth ddylai gael ei wneud ynglŷn â'r mater?

Ceisiwch feddwl am o leiaf ddau gwestiwn arall i'w gofyn

Rhingyll Rob Taylor

Heddwlas

- 3 buwch wedi cael eu canfod yn farw ar ôl iddynt fwyta canghennau ywen gwenwynig a adawyd yn y cae
- Bwriadu edrych ar gofnodion CCTV i geisio adnabod y sawl a wnaeth
- Gallwch dderbyn dirwy o hyd at £50,000 a mynd i'r carchar am dipio gwastraff yn anghyfreithlon

Dylan

Ffermwr

- Yn flin bod 3 o'i wartheg wedi'u lladd o ganlyniad i weithredoedd hunanol rhywun arall
- Wedi colli'r incwm a fyddai wedi dod yn sgil y 3 buwch
- Bydd hefyd yn gorfod talu i gael gwared ar y gwastraff ei hun

Ffion

Cerdded gyda'i chi yn lleol

- Yn mynd â'i chi am dro ar hyd llwybrau gwledig cyhoeddus yn yr ardal
- Poeni y gallai ei chi gael ei niweidio gan wastraff peryglus neu wenwynig
- Yn bwriadu hysbysu'r awdurdodau lleol os bydd yn gweld unrhyw beth amheus

John

Aelod o'r cyhoedd

- Yn pryderu bod y canghennau yw wedi dod o'i ardd ef
- Wedi talu i rywun dorri ywen yn ei ardd yn ddiweddar, gan feddwl y byddai'r gwastraff yn cael ei drin yn gywir
- Bydd yn sicrhau bod pawb sy'n cymryd ei wastraff yn y dyfodol yn berchen ar drwydded gwastraff

Pennawd: Dyn o Gwmbrân wedi'i gael yn euog o dipio'n anghyfreithlon mewn cae lleol



**Darllenwch y
pennawd papur
newydd**

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

Sut bydd y gwastraff sy'n cael ei dipio yn
effeithio arnoch chi?

**Meddyliwch pwy fyddai orau i ateb y
cwestiynau yma:**

Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

Beth ddylai gael ei wneud ynglŷn â'r mater?

Ceisiwch feddwl am o leiaf ddau gwestiwn arall i'w gofyn

Matthew

Adeiladwr lleol a gafwyd yn euog o'r tipio

- Wedi gadael y gwastraff mewn cae am ei fod yn rhatach na mynd i'r safle tirlenwi, heb feddwl y byddai unrhyw un yn sylwi
- Wedi cael achos llys, a derbyn dirwy o £1,000
- Wedi cael ei enwi gan y papurau lleol, gan achosi niwed i'w fusnes

Swyddog Nia Jones

Heddwlas

- Wedi defnyddio gwybodaeth a gafwyd gan gerddwr ci lleol i ganfod pwy adawodd y gwastraff
- Gall ymchwiliadau o'r fath gymryd amser hir a chostio'n ddrud i drethdalwyr
- Nid yw pobl yn sylweddoli y gallant dderbyn dirwy neu fynd i'r carchar am dipio yn anghyfreithlon

John

Cerdded gyda'i gi yn lleol

- Gwelodd ddyn yn tipio gwastraff adeiladwyr mewn cae wrth fynd â'i gi am dro
- Cofnododd rif cofrestru'r fan a ddefnyddiwyd
- Hysbysodd yr awdurdod lleol

Y Cyngorydd Clark

Cyngorydd lleol

- Gall tipio anghyfreithlon niweidio bywyd gwyllt a delwedd ardal
- Eisiau i bobl warchod eu hardal leol
- Gobeithio bydd y dyfarniad yn danfon neges i eraill sy'n bwriadu tipio yn anghyfreithlon

Pennawd: Dyn o Gas-gwent wedi'i arestio ar ôl i lwyth o wastraff busnes a chartref gael ei ganfod mewn stad ddiwydiannol



**Darllenwch y
pennawd papur
newydd**

Cwestiynau

Gofynnwch i bob cymeriad:

Sut bydd y gwastraff sy'n cael ei dipio yn
effeithio arnoch chi?

**Meddyliwch pwy fyddai orau i ateb y
cwestiynau yma:**

Sut mae'n gwneud i chi deimlo?

Beth ddylai gael ei wneud ynglŷn â'r mater?

Ceisiwch feddwl am o leiaf ddau gwestiwn arall i'w gofyn

Jonathan

Wedi'i arestio am dipio yn anghyfreithlon

- Wedi ceisio elwa'n ariannol trwy gymryd gwastraff pobl ac yna'i adael ar stad ddiwydiannol
- Ddim yn meddwl y byddai wedi cael ei ddal
- Poeni y bydd yn mynd i'r carchar neu'n derbyn dirwy
- Yn difaru gwneud yn y lle cyntaf

Swyddog Alun Phillips

Heddwes

- Wedi treulio amser hir yn casglu tystiolaeth i ganfod perchnogion y gwastraff a'r person a dalwyd i gael gwared ohono
- Pe byddai llai o achosion tipio'n anghyfreithlon byddai'n gallu treulio mwy o amser yn delio gyda throseddau eraill a gwarchod y gymuned

Charlie

Byw yn lleol

- Wedi derbyn galwad gan yr heddlu am fod llythyrau gyda'i chyfeiriad hi wedi'u canfod ymysg gwastraff wedi'i dipio yn anghyfreithlon
- Wedi talu i ddyn fynd â'r gwastraff, ond heb edrych i weld a oedd ganddo drwydded i wneud hynny
- Bydd yn gofyn am weld trwydded y tro nesaf

Carys

Perchennog siop ar y stad ddiwydiannol

- Yn flin bod cymaint o wastraff yn cael ei adael ar y stad am fod pobl yn meddwl na fyddent yn cael eu dal
- Llai o bobl yn ymweld gan fod y sbwriel yn ei wneud yn llai deniadol
- Hynny'n arwain at lai o gwsmeriaid yn y siop